

Chwarel Tŷ Llwyd Diweddariad

Awst 2024

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymwybodol iawn o bryderon sydd ar led yn y gymuned am hen safle Chwarel Tŷ Llwyd. Mae'r cylchlythyr hwn wedi'i greu i roi gwybodaeth ddefnyddiol i drigolion am hanes y safle, y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma, yn ogystal â chynlluniau parhaus i wneud gwelliannau pellach yn y dyfodol.

Beth sydd wedi digwydd ers ein Cylchlythyr diwethaf?

Mae'r rhaglen samplu ar safle Tŷ Llwyd er mwyn llywio'r asesiad Rhan 2A o ran tir halogedig wedi dod i ben, gyda'r samplau olaf yn cael eu cymryd ym mis Ebrill. Roedd hyn yn cynnwys monitro dŵr daear o dyllau turio ar safle Tŷ Llwyd ac yng nghoetir cyfagos Pant-y-ffynnon bob chwarter. Roedd y rhaglen hefyd yn cynnwys samplu afon Sirhywi a chymryd samplau dŵr o ffynhonnau o amgylch y safle.

Yn ogystal, mae ansawdd aer yn cael ei fonitro ar y safle, ac o'i amgylch, ac rydyn ni'n casglu samplau pridd o bryd i'w gilydd hefyd. Mae dogfen strategaeth fonitro wedi'i llunio sy'n nodi'r wybodaeth hon, ac mae copi o'r ddogfen wedi'i anfon at gyngorwyr lleol.

Cafodd samplau dŵr eu cymryd ym mis Chwefror 2023, mis Mehefin 2023, mis Hydref 2023, mis Ionawr 2024 a mis Ebrill 2024. Bydd ymgynghorwyr y Cyngor nawr yn crynhoi'r holl ddata monitro mewn un adroddiad ac yn dod i'r casgliad a yw'r safle yn dod o dan y diffiniad cyfreithiol o 'dir halogedig' o dan Ran 2A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

O ran y samplau dŵr wedi'u cymryd hyd yma, mae'r canlyniadau wedi bod fel y bydden ni'n ei ddisgwyl. Mae lefelau uchel o halogion yn y dŵr daear ar safle Tŷ Llwyd (yn y màs gwastraff), fodd bynnag, mae'r crynodiadau yn y dŵr daear o amgylch y safle tirlenwi a'r tu allan i'r màs gwastraff yn gyffredinol yn sylweddol is.

O ran y gwaith monitro dŵr daear ym mis Mehefin 2023, cafodd y crynodiadau uchaf o halogion eu nodi mewn twll turio ar y safle i'r gogledd-ddwyrain o'r chwarel; ond, ym mis Hydref 2023, cafodd y crynodiadau uchaf eu cofnodi mewn dau dwll turio ar y safle ar ochr ddeheuol y safle tirlenwi.

Ym mis Hydref 2023, cafodd rhai halogion eu nodi yn un o'r samplau dŵr ffynnon (gan gynnwys lefelau isel o glorofform, bromofform a bromodicloromethan) yn union ar y ffin â'r safle, ynghyd â lefelau isel o fetelau mewn un sampl ffynnon arall. Er bod rhai o'r halogion

hyn yn bresennol ar lefelau isel, yn aml iawn maen nhw'n is na'r safonau perthnasol ac nid ydyn nhw'n peri risg sylweddol i iechyd y cyhoedd na'r amgylchedd.

Cafodd y crynodiadau uchaf o grŵp o gemegau o'r enw biffenylau polychlorinedig (PCBs) eu mesur yn y màs gwastraff ar safle Tŷ Llwyd ym mis Hydref 2023, gyda chrynodiadau is yn cael eu cofnodi mewn dau dwll turio ar y safle i'r de o'r màs gwastraff, a chrynodiadau is (ond canfyddadwy) yn y siambr awyru yng nghoetir Pant-y-ffynnon.

Yn gyffredinol, roedd canlyniadau'r samplau ffynnon o fis Ionawr a mis Ebrill 2024 islaw'r terfyn canfod ar gyfer y mwyafrif o halogion. Roedd ychydig bach o fetelau (sinc, plwm, nicel a seleniwm) ac arsenig yn ganfyddadwy mewn nifer o samplau ffynnon, fodd bynnag, mae mwyafrif y canlyniadau yn cydymffurfio â safonau ansawdd amgylcheddol ar gyfer metelau ac yn cydymffurfio'n llawn ar gyfer arsenig. Yn achos rhai metelau, nid oes un safon ansawdd amgylcheddol gymaradwy ac maen nhw'n cael eu gosod fel cyfartaledd blynyddol, sy'n golygu bod yn rhaid eu cyfartaleddu nhw dros y flwyddyn; mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan ymgynghorwyr y Cyngor, a dyna pam rydyn ni wedi dweud bod mwyafrif y canlyniadau yn cydymffurfio. Gall metelau fodoli'n naturiol yn y pridd, felly nid yw presenoldeb metelau mewn samplau pridd a dŵr bob amser yn golygu eu bod nhw wedi deillio o ffynhonnell halogi.

Yn samplau mis Ionawr 2024, roedd un lleoliad a oedd yn cynnwys ychydig bach o hydrocarbonau, a oedd uwchlaw safle Tŷ Llwyd, ac un arall a oedd yn cynnwys ychydig bach o gromiwm chwefalent. Ym mis Ebrill 2024, roedd un sampl yn cynnwys ychydig bach o glorofform ac roedd un arall yn cynnwys ychydig bach o sylen. Fodd bynnag, roedd yr holl samplau hyn o fewn safonau derbyniol.

Cafodd samplau eu cymryd o afon Sirhywi ym mis Mehefin 2023 a mis Ebrill 2024. Cafodd y rhain eu cymryd o dri lleoliad gwahanol (i fyny'r afon o'r chwarel, yn union islaw'r chwarel, ac i lawr yr afon o'r chwarel). Ni chafodd unrhyw halogion a oedd yn uwch na therfyn canfod y labordy eu canfod yn y samplau o'r afon ym

mis Mehefin 2023. Roedd y canlyniadau ym mis Ebrill 2024 wedi cofnodi ychydig bach o fetelau (gan gynnwys nicel, seleniwm a sinc) a lefelau isel iawn o arsenig yn y 3 lleoliad samplu. Roedd pob canlyniad yn cydymffurfio â safonau amgylcheddol perthnasol.

Beth sydd wedi digwydd ers ein Cylchlythyr diwethaf? Parhad...

Ers llunio ein cylchlythyr diwethaf, fe wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gwblhau ei ymchwiliad i ddŵr halogedig yn gadael tir y Cyngor ym mis Ionawr 2023. Fe wnaeth hyn arwain at Cyfoeth Naturiol Cymru yn anfon llythyr rhybuddio ym mis Mehefin 2023 ynghylch y digwyddiad am ganiatáu gweithgaredd gollwng dŵr yn fwriadol yn groes i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi cychwyn trafodaethau cyn ymgeisio â Cyfoeth Naturiol Cymru, ac wedi casglu data samplu a llif er mwyn llywio asesiad a fydd yn penderfynu a oes angen trwydded gollwng dŵr ar gyfer y safle.

Eleni, o ganlyniad i lawiad sylweddol, bu rhagor o achosion o ddŵr halogedig yn gadael y tir sy'n eiddo i'r Cyngor. Fe wnaeth y Cyngor roi gwybod am yr achosion hyn i Cyfoeth Naturiol Cymru, a chafodd gwaith samplu ei wneud i asesu unrhyw risg bosibl i iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd. Fe wnaeth canlyniadau'r samplau ddangos bod y dŵr a oedd yn gadael y safle ym mis Ionawr eleni yn cynnwys lefelau isel o fetelau, ychydig bach o fffthalad deuethyl a lefelau isel o hydrocarbonau. Roedd y lefelau o halogion wedi'u cofnodi yn y man lle gadawodd y dŵr dir y Cyngor yn isel a nid oedden nhw'n peri unrhyw risg sylweddol i'r amgylchedd nac i iechyd y cyhoedd.

Cafodd y Cyngor hysbysiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ebrill eleni, sy'n adlewyrchu'r ddeialog gyfredol rhwng y sefydliadau. Roedd yr hysbysiad hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor gymryd camau allweddol, megis llunio adroddiad arfarnu opsiynau a chynllun gweithredu ar gyfer y safle. Fe wnaeth y Cyngor lunio'r adroddiadau gofynnol, a'u cyflwyno nhw i Cyfoeth Naturiol Cymru ddiwedd mis Mehefin eleni er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r hysbysiad. Mae'r Cyngor yn aros am adborth ar yr adroddiadau.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Cafodd y rownd derfynol o waith monitro ei chynnal ym mis Ebrill eleni. Mae ymgynghorwyr y Cyngor nawr yn ystyried yr holl ganlyniadau. Bydd y canlyniadau yn llywio'r asesiad Rhan 2A i benderfynu a yw'r safle yn dod o dan y diffiniad cyfreithiol o dir halogedig. Mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio hefyd i lunio asesiadau eraill i benderfynu a oes angen trwydded gollwng dŵr gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y safle.

I gyd-fynd â'r asesiadau uchod, mae'r Cyngor wedi llunio adroddiad sy'n ystyried opsiynau ar gyfer ymdrin â'r safle yn y tymor hir. Y cam nesaf fydd cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer un (neu ragor) o'r opsiynau hyn. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal ag asiantaethau partner allweddol cyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Mae'n bwysig pwysleisio mai diben y gwaith hwn, ar hyn o bryd, yw cael gwell dealltwriaeth o ddichonoldeb atebion tymor hwy posibl, a'r costau, i helpu'r broses benderfynu yn y dyfodol. Dyma'r opsiynau sydd wedi cael eu hystyried hyd yma:

- **Symud y gwastraff i safle tirlenwi arall – mae'r opsiwn hwn wedi cael ei gynnwys er mwyn deall y costau tebygol, a'r logisteg, o ran symud y gwastraff.**

- **Sefydlogi â sment yn y fan a'r lle / growtuo yn y fan a'r lle (sef troi'r gwastraff yn fâs solet, a'i adael yn y ddaear).**
- **Gosod system orchuddio wedi'i saernio newydd a gwell systemau draenio.**
- **Pwmpio'r dŵr daear er mwyn lliniaru achosion o drwytholch yn dianc heb ei reoli o'r tu mewn i'r safle tirlenwi, ynghyd â thrin y dŵr sy'n cael ei bwmpio, naill ai ar y safle neu oddi arno.**

Hefyd, ar hyn o bryd, rydyn ni'n ymchwilio i atebion posibl i helpu arafu llif dŵr wyneb yn ystod cyfnodau o stormydd. Yn ystod y misoedd nesaf, mae'n bosibl y byddwch chi'n gweld gwaith yn cael ei wneud ar y sianel dŵr wyneb ar safle Tŷ Llwyd. Mae'n bosibl y byddwn ni'n gosod rhai argaeau naturiol a fydd yn ceisio arafu llif y dŵr wyneb sy'n mynd trwy safle Tŷ Llwyd a safle Pant-y-ffynnon (dyma'r dŵr sy'n llifo i lawr ochr y safle o gae'r ffermwr uwchlaw ac yn mynd drwy'r coetir ger y llwybr troed). Dyma'r llif y byddwch chi yn aml yn ei weld yn llifo oddi ar y safle yn ystod cyfnodau o dywydd gwlyb.

Bydd y tîm Iechyd yr Amgylchedd yn parhau i fonitro'r safle'n agos, ac yn ymweld â'r safle bob dydd yn ystod cyfnodau hir o dywydd gwlyb, ac yn parhau i reoli'r risg a gweithio gyda phartneriaid allweddol yn y dyfodol hyd nes penderfynu ar ddyfodol y safle.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon, mae croeso i chi gysylltu â:

Maria Godfrey ar **01443 811346** neu **GodfrM@caerffili.gov.uk**

Ceri Davis ar **01443 811348** neu **DavisCJ@caerffili.gov.uk** (ar ddydd Mercher/dydd lau/dydd Gwener yn unig)

E-bost: GweinydduA@caerffili.gov.uk

Hefyd, mae cyfres o gwestiynau cyffredin wedi'i datblygu i helpu mynd i'r afael ag unrhyw ymholiadau neu bryderon ychwanegol sydd gennych chi, sydd ar gael ar wefan y Cyngor:

www.caerffili.gov.uk/ty-llwyd

Os nad oes gennych chi fynediad at y rhyngwrdd a hoffech chi gael copi o'r cwestiynau cyffredin, mae croeso i chi ddefnyddio'r rhifau uchod i ofyn am gopi a byddwn ni'n eu postio nhw atoch chi.

